



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# **Defnydd personol ar gyfryngau cymdeithasol**

## **Polisi ac Arweiniad**

## Taflen wybodaeth

Blwch wybodaeth

I gael cyngor pellach, cysylltwch â'r: Tîm Gwasanaethau Gwybodaeth

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2018

Dyddiad dechrau adolygu arfaethedig: Mai 2019

### Rheoli fersiwn

Fersiwn	Awdur	Dyddiad cyhoeddi	Sylwadau
1.0	Phil Sweeney	Ionawr 2014	Drafft ar gyfer sylwadau staff (cyhoeddwyd ar y cyd ag aildrafft o'r Polisi ar Ddefnyddio TGCh)
2.0	Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth	14 Ebrill 2014	Cwblhawyd yr adolygiad
3.0	Phil Sweeney	Mawrth 2015	Diweddarwyd yn unol â Pholisi Cyflogeion y Gwasanaeth Sifil: Ychwanegiadau at: para 1.18 a 4.10 Paragraffau newydd: 1.30, 3.21, a 4.7
4.0	Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth	Chwefror 2017	Newid enw'r polisi i 'Defnydd personol ar gyfryngau cymdeithasol'. Ychwanegu na ddylech ddatgan ar gyfryngau cymdeithasol personol eich bod yn gweithio i Estyn <b>neu'r gwasanaethu sifil</b> . Cadarnhau ein safiad o ran gofyn i staff hyrwyddo negeseuon Estyn trwy eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol (Para 1.19).
5.0	Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth	Mai 2018	Adolygiad cyn cyflwyno'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Mae'r polisi hwn wedi cael ei gytuno gan reolwyr Estyn ac undebau llafur.

### **Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Cynhaliwyd aseiad rhesymwaith busnes ac mae'r polisi hwn yn cyfrannu at amcanion strategol ac egwyddorion cyflenwi Estyn.

Mae aseiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'i gynnal, a chredir nad yw'r polisi hwn yn effeithio'n niweidiol ar unrhyw bobl ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol na'r iaith Gymraeg.

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
<b>Datganiad polisi ar gyfryngau cymdeithasol</b>	<b>1</b>
<b>Arweiniad polisi ar gyfryngau cymdeithasol</b>	<b>2</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>2</b>
<b>I bwy y mae'r canllaw hwn yn berthnasol?</b>	<b>2</b>
<b>Beth yw cyfryngau cymdeithasol?</b>	<b>2</b>
<b>Pam mae angen polisi ac arweiniad arnom?</b>	<b>3</b>
<b>Cod y Gwasanaeth Sifil</b>	<b>3</b>
<b>Cyfrifoldeb</b>	<b>4</b>
<b>Parch</b>	<b>4</b>
<b>Cynrychiolaeth</b>	<b>5</b>
<b>Cynrychiolaeth Broffesiynol</b>	<b>5</b>
<b>Mynediad</b>	<b>6</b>
<b>Camddefnydd</b>	<b>6</b>
<b>Monitro</b>	<b>7</b>
<b>Crynodeb</b>	<b>7</b>
<b>Beth nesaf?</b>	<b>8</b>
<b>Astudiaethau achos ar gyfryngau cymdeithasol</b>	<b>8</b>
<b>Cwestiynau cyffredin am gyfryngau cymdeithasol</b>	<b>11</b>
<b>Canllaw ar sut i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ddiogel ac yn gyfrifol</b>	<b>15</b>

## **Datganiad polisi ar gyfryngau cymdeithasol**

Mae'r rhyngwyd yn rhan o'n bywydau bob dydd ac mae cyfryngau cymdeithasol yn rhan bwysig o'r byd ar-lein hwn. Mae cyfryngau cymdeithasol yn ein galluogi i aros mewn cysylltiad â'n ffrindiau, ein teuluoedd a chymunedau ar-lein, gan rannu gwybodaeth a phrofiadau. I'r Gwasanaeth Sifil, mae cyfryngau cymdeithasol yn rhoi cyfle i ni ymgysylltu a chyfathrebu â'n cwsmeriaid a'n cyflogeion mewn ffordd uniongyrchol, amgen a hygyrch. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r modd y dylech ymddwyn ar-lein, ac mae'n berthnasol i holl gyflogeion Estyn, p'un a ydynt yn y gwaith neu yn ystod eu hamser personol, gan ddefnyddio dyfeisiadau TG gwaith neu rai personol.

Mae Estyn yn annog defnydd **cyfrifol** o'r cyfryngau cymdeithasol. Wrth gymryd rhan ar-lein, chi sy'n atebol am eich cyfraniadau. Dylech barchu pobl eraill a bod yn glir ynghylch pwy rydych yn ei gynrychioli. Yn eich holl ryngweithio, ystyriwch werthoedd craidd y Gwasanaeth Sifil; uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd ac amhleidioldeb.

Cofiwch mai cyfrwng cyfathrebu cyhoeddus arall yn unig yw'r cyfryngau cymdeithasol, a dylech gymhwyso'r un ystyriaethau i'r hyn rydych yn ei roi ar-lein ag y byddech pe baech yn rhoi rhywbeth ar hysbysfwrdd yn y gwaith, yn siarad â'ch ffrindiau/cydweithwyr mewn lle cyhoeddus, neu'n siarad â newyddiadurwr. Gallai popeth rydych yn ei bostio o bosibl gael ei weld yn fyd-eang, a gall pobl eraill ei weld neu'i rannu.

**Os na fydddech yn ei wneud oddi ar-lein, peidiwch â'i wneud ar-lein.  
#meddyliwchcynpostio**

## Arweiniad polisi ar gyfryngau cymdeithasol

### Cyflwyniad

- 1.1 Gall cyfryngau cymdeithasol fod yn ffordd effeithiol i'r Gwasanaeth Sifil ymgysylltu â, a chyfathrebu â chwsmeriaid a chyflogeion, gan alluogi i ni wella'r ffordd rydym yn gweithio.
- 1.2 Gall cyfryngau cymdeithasol ddileu ffiniau daearyddol. Mae datblygiadau mewn technoleg symudol yn golygu y gall cyfryngau cymdeithasol fod ar gael ar unwaith i lawer o bobl, yn unrhyw le ac ar unrhyw bryd.
- 1.3 Efallai eich bod eisoes yn defnyddio safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd, neu efallai eich bod newydd ddechrau eu defnyddio ac yn meddwl tybed beth yw'r holl ffÿs. Gall cyfryngau cymdeithasol fod yn ffordd wych o rannu gwybodaeth a phrofiadau fel y maent yn digwydd. Mae llawer o bobl yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gysylltu â, a chyfathrebu â ffrindiau, teuluoedd a chymunedau ar-lein. I'r Gwasanaeth Sifil, mae'n galluogi i ni gyfathrebu mewn ffordd fwy effeithlon ac agored, a chyrraedd ein cwsmeriaid yn y lleoedd y maent eisoes yn rhyngweithio ynddynt.

### I bwy y mae'r arweiniad hwn yn berthnasol?

- 1.4 Mae'r arweiniad hwn yn berthnasol i holl gyflogeion Estyn, p'un a yw hynny yn ystod oriau gwaith neu yn eu hamser personol, sy'n defnyddio dyfeisiadau TG gwaith neu rai personol. Mae hyn yn cynnwys cyflogeion parhaol a dros dro, cyflogeion yn ystod cyfnod prawf, gweithwyr asiantaeth a phawb arall, fel secondeion a staff sydd ar fenthg o adrannau eraill y llywodraeth a allai fod yn cynrychioli Estyn ar adegau amrywiol.

### Beth yw cyfryngau cymdeithasol?

- 1.5 Mae cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys llwyfannau TG ar-lein lle gallwch gynhyrchu, cyfrannu a rhannu cynnwys sy'n cynnwys testun, lluniau a fideos. Dyma rai enghreifftiau (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr):
  - Safleoedd rhwydweithio cymdeithasol lle gall pobl ryngweithio â phobl eraill a rhannu gwybodaeth, fel arfer mewn amser real. Er enghraifft, Facebook neu LinkedIn.
  - Gwefannau rhannu fideos a lluniau sy'n caniatáu rhyngweithio ond yn benodol trwy rannu lluniau neu fideos (er y gallent roi lle ar gyfer sylwadau). Er enghraifft, YouTube, Instagram, Snapchat neu Flickr.
  - Blogiau sy'n galluogi i chi ysgrifennu adroddiadau hir am eich bywyd bob dydd a/neu destun penodol (gellid gwneud hyn trwy eich gwefan eich hun neu drwy safle fel Blogger).

- Micro-flogio sy'n debyg i flogiau ond yn cyfyngu ar nifer y nodau y gallwch eu teipio. Er enghraifft, Twitter.
- Wikis a chydweithio ar-lein sy'n galluogi defnyddwyr i ychwanegu, addasu, neu ddileu cynnwys yn hawdd mewn cronfa ddata ar-lein ac fe'u defnyddir ar gyfer rhannu gwybodaeth, gwneud nodiadau a chydweithio. Er enghraifft, Wikipedia.
- Fforymau a byrddau trafod ar-lein lle gall defnyddwyr gynnal sgysiau trwy bostio negeseuon ar y safle (testunau cyffredinol yn unig yw rhai o'r rhain, ac mae rhai eraill yn canolbwyntio ar feysydd diddordeb penodol). Er enghraifft, Netmums neu gemau aml-chwaraewr ar-lein.
- Cymwysiadau negeseua gwib ar-lein. Er enghraifft, Facebook Messenger neu WhatsApp.

1.6 Mae natur gwefannau cyfryngau cymdeithasol yn golygu bod gorgyffwrdd rhwng y diffiniadau hyn. Er enghraifft, gellir dosbarthu Twitter yn safle micro-flogio ac yn safle rhwydweithio cymdeithasol.

### **Pam mae angen polisi ac arweiniad arnom?**

- 1.7 Mae'r polisi a'r arweiniad hwn yn ceisio egluro beth sy'n briodol ac yn amhriodol i weision sifil wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae'n amlgyr pethau allweddol i'w cofio; yn egluro'r ffiniau a'r problemau posibl; ac yn grymuso cyflogeion i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol.
- 1.8 Gall cyfryngau cymdeithasol herio ein dealltwriaeth o beth yw ymddygiad priodol ar-lein. Efallai eich bod yn meddwl eich bod yn postio i gynulleidfa breifat a ddewiswyd ymlaen llaw, ond gall unrhyw un sy'n edrych ar y pethau rydych yn eu postio a'ch cyfraniadau eu copïo a'u hanfon at bobl eraill yn hawdd, gan gyrraedd cynulleidfa lawer mwy nag yr oeddech wedi'i bwriadu o bosibl. Pan fyddwch yn rhannu rhywbeth ar-lein, rydych yn colli rheolaeth o'i ddiogeled, ni ellir ei dynnu'n ôl ac nid yw'n breifat mwyach. Mae'n bwysig cofio y gallai'r hyn rydych yn ei wneud ar-lein effeithio ar eich gwaith, enw da'r Gwasanaeth Sifil, Estyn, ein cyflogeion, ein cyflenwyr a rhanddeiliaid eraill. O'i roi yn syml; **Meddylwch cyn postio!**
- 1.9 Mae Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS) a'r Swyddfa Gartref wedi llunio [arweiniad](#) ar y cyd ar ddileu rhwystrau a defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu ac ymgysylltu. Mae polisi ac arweiniad Estyn yn cefnogi arweiniad y GDS trwy egluro ac ehangu ar yr agweddau yn ymwneud â phobl a darparu fframwaith sy'n golygu y gall cyflogeion deimlo bod ganddynt rym i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol.

### **Ystyriaethau**

#### **Cod y Gwasanaeth Sifil**

- 1.10 Rhaid i bob gwas sifil lynu wrth [Cod y Gwasanaeth Sifil](#). Mae'r Cod yn amlinellu gwerthoedd craidd uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd ac amhleidioldeb – a'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gennym ni p'un a ydym ar-lein neu ddim ar-lein, yn

ystod oriau gwaith neu yn ein hamser personol. Mae'n bwysig i chi fod yn ymwybodol yr ystyrir bod postio unrhyw gynnwys ar-lein yn achos o dorri Cod y Gwasanaeth Sifil neu god ymddygiad Estyn, a gallai arwain at gamau disgyblu (cyfeiriwch at yr adran ar gamddefnyddio yn yr arweiniad hwn).

### **Cyfrifoldeb**

- 1.11 Dylech ddefnyddio'r un rheolau o ran rhyngweithio â phobl yn y gymuned ar-lein ag y byddech wrth roi sylwadau i'r cyhoedd neu'ch cydweithwyr trwy unrhyw gyfrwng arall, p'un a ydych yn rhoi rhywbeth ar hysbysfwrdd yn y gwaith, yn siarad â'ch ffrindiau/cydweithwyr mewn lle cyhoeddus neu'n siarad â newyddiadurwr. Hefyd, dylech ystyried bod defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gallu ei gwneud yn anodd tynnu post yn ôl.
- 1.12 Chi sy'n gyfrifol am unrhyw beth rydych chi'n ei bostio ar-lein. Mae hyn yn cynnwys y cynnwys sydd wedi cael ei ychwanegu gan bobl eraill ond y gallech ddewis ei rannu trwy eich cyfryngau cymdeithasol eich hun. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen ac yn dilyn y Telerau Defnyddio/Rheolau Ymgysylltu ar gyfer y safleoedd cyfryngau cymdeithasol yr ydych yn eu defnyddio.
- 1.13 Os bydd post amhriodol wedi cael ei wneud gan gydweithiwr neu was sifil arall, dylech roi gwybod i'ch rheolwr llinell. Gofalwch nad ydych yn dwysáu neu'n cysylltu'ch hun â'r sefyllfa trwy gael eich tynnu i fod yn rhan o ddadl ar-lein.

### **Parch**

- 1.14 Dangoswch yr un parch at bobl eraill ag y byddech pe baech yn rhyngweithio wyneb yn wyneb. Ystyriwch fod gweithredoedd weithiau'n cael eu hamlygu ar-lein gan eu bod yn hygyrch i gynifer o bobl.

Meddyliwch cyn i chi bostio:

- A allai pobl eraill, y cyfryngau neu'ch cyflogwr amgyffred eich post mewn ffordd wahanol? Efallai nad y rhain yw'r gynulleidfa rydych wedi bwriadu'ch post ar ei chyfer, ond gallai unrhyw un edrych ar yr hyn rydych yn ei bostio o bosibl.
- A allai beryglu'ch diogelwch neu'ch diogeledd chi neu bobl eraill? Eto, ni allwch fod yn sicr pwy sy'n edrych ar yr hyn rydych yn ei bostio, felly meddyliwch sut gallai rhywun sydd ag agenda wahanol i'ch un chi ddefnyddio'r wybodaeth.
- A allai effeithio ar breifatrwydd personol pobl eraill? Er enghraifft, gellid gwneud hyn trwy enwi rhywun yn eich post yn ystod cyfarfod gwaith neu noson allan gymdeithasol.
- Ai cyfryngau cymdeithasol yw'r cyfrwng cyfathrebu priodol ar gyfer yr hyn rydych yn ceisio'i ddweud? Er bod defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gallu bod yn effeithiol iawn, weithiau gallai sgwrs gyflym, galwad ffôn neu neges e-bost fod yn fwy priodol.
- A ellid effeithio ar eich barn dros dro? Er enghraifft, pe baech dan ddylanwad alcohol.



- 1.15 Dangoswch barch at y ffaith fod gan bobl wahanol lefelau o arbenigedd ar-lein ac na fydd pawb yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol am yr un rhesymau. Er enghraifft, efallai na fydd rhai pobl yn dymuno rhyngweithio yn gymdeithasol gyda chydweithwyr ar-lein, mae hyn yn ddewis personol.

### **Cynrychiolaeth**

- 1.16 Mae Estyn yn deall y gallech fod yn falch o ble rydych yn gweithio a'ch bod eisiau cynnwys hyn ar eich proffil, neu siarad amdano gyda'ch ffrindiau ar-lein. Fodd bynnag, os oes gennych dudalen cyfryngau cymdeithasol bersonol, **ni ddylech ddweud mai Estyn neu'r Gwasanaeth Sifil yw eich cyflogwr.**
- 1.17 Os ydych chi'n rhannu pwy yw eich cyflogwr, gellid camddechongli'ch safbwyntiau fel rhai sy'n cynrychioli Estyn a'r Gwasanaeth Sifil. Dylech fod yn ymwybodol y gallai eich safbwyntiau fod yn gysylltiedig ag Estyn a'r Gwasanaeth Sifil o hyd, hyd yn oed gydag ymwrthodiad.
- 1.18 Os byddwch yn dod i wybod bod rhywun yn cam-gynrychioli Estyn, neu'n postio ar ran rhywun arall neu Estyn pan nad yw wedi cael awdurdod i wneud hynny, yna rhowch wybod i'ch rheolwr llinell.
- 1.19 Mae pob aelod staff yn helpu i hyrwyddo negeseuon Estyn. Weithiau, caiff staff eu hannog i wneud, neu byddant yn dymuno rhannu cynnwys allanol Estyn trwy eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol. Mae'n bosibl rhannu cynnwys yn uniongyrchol heb gorfod ychwanegu unrhyw sylw, barn bersonol nac awgrym mai Estyn yw eich cyflogwr, e.e. trwy ddefnyddio'r botymau 'rhannu' ar wefan Estyn neu aildrydar ar Twitter. Dylai staff ond rannu cynnwys Estyn drwy eu cyfrifon personol os ydynt yn teimlo'n hapus i wneud hynny.

### **Cynrychiolaeth Broffesiynol**

- 1.20 Os ydych chi wedi cael awdurdod gan Estyn i'w gynrychioli ar-lein, dylech ddilyn yr egwyddorion a amlygir yn y datganiad polisi ochr yn ochr â'r arweiniad hwn. Mae hyn yn berthnasol bob tro rydych yn cynrychioli Estyn p'un a yw hynny trwy gyfrif proffesiynol neu gyfrif wedi'i frandio, ar TG gwaith neu TG personol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn datgelu ac yn gwneud sylwadau ar wybodaeth yr ydych chi wedi cael caniatâd awdurdodedig ar ei chyfer yn unig, a gwnewch yn siŵr bod y wybodaeth rydych yn ei rhannu yn gywir ac yn cydymffurfio â pholisi Estyn. Mae gwybodaeth a chyfrineiriau sy'n gysylltiedig â chyfrifon cymdeithasol busnes yn perthyn i Estyn ac yn parhau i fod yn eiddo Estyn hyd yn oed ar ôl y cyfnod pan nad yw rhywun yn cael ei gyflogi gennym mwyach.
- 1.21 Os nad oes gennych awdurdod i gynrychioli Estyn ond yr ydych chi yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn broffesiynol (er enghraifft, i rwydweithio trwy safle cyfryngau cymdeithasol proffesiynol), yna dylech ddilyn yr egwyddorion a amlygir yn yr arweiniad hwn eto. Ystyriwch y ffaith y gall fod yn haws i'ch safbwyntiau gael eu camddechongli fel rhai Estyn, wrth i chi ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn y modd hwn.

- 1.22 Dylech wahaniaethu'n glir rhwng eich proffil proffesiynol (awdurdodedig neu beidio) ac unrhyw broffiliau personol. Wrth nodi'ch hun yn gyflogai Estyn, ystyriwch a oes unrhyw fygythiadau posibl i'ch diogeledd personol.
- 1.23 Mae [arweiniad](#) ar y cyd gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth a'r Swyddfa Gartref ar y cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys rhagor o fanylion ar sut i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol at ddibenion busnes.

### **Mynediad**

- 1.24 Mae safbwynt Estyn ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod oriau gwaith yn ein Polisi ar Ddefnyddio TG. Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr nad yw defnydd personol o gyfryngau cymdeithasol yn effeithio ar eich gallu i wneud eich gwaith gydag uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd ac amhleidioldeb.

### **Camddefnydd**

- 1.25 Yn unol ag unrhyw gyfrwng cyfathrebu, gall problemau godi os byddwch yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn amhriodol (naill ai yn y gwaith neu yn eich amser personol) a gall Estyn gymryd camau disgyblu yn sgil hyn. Gallai enghreifftiau o ddefnydd amhriodol gynnwys:
- Bwlio/aflonyddu. Mae'n bwysig cofio bod bwlio ac aflonyddu ar-lein lawn mor ddifrifol ag y byddai pe bai'n digwydd oddi ar-lein. Gallai enghreifftiau gynnwys iaith fygythiol neu ymosodol a phostio jôcs di-chwaeth neu sylwadau bychanol. Dylid cymhwyso popeth yr ymdrinnir ag ef ym mholisi Estyn ar fwlio ac aflonyddu wrth i chi ryngweithio ar-lein.
  - Postio sylwadau tramgwyddus sy'n anghyson â safonau a gwerthoedd Estyn a/neu God y Gwasanaeth Sifil.
  - Postio deunydd amhriodol sy'n dwyn anfri ar Estyn.
  - Postio sylwadau bychanol/difriol at unrhyw unigolyn neu sefydliad. Mae datganiad difriol yn rhoi gwybodaeth ffug sy'n niweidio enw da unigolyn neu sefydliad arall. Gallai hyn gynnwys ailbostio gwybodaeth a rannwyd gyda phobl eraill yn wreiddiol. Wrth ailbostio, gallwch fod yn atebol yn bersonol am y post fel pe baech wedi'i bostio eich hun.
  - Datgelu gwybodaeth gyfrinachol am fusnes Estyn, ei gyflogeion, ei gyflenwyr neu randdeiliaid eraill.
  - Lledaenu sïon neu ailbostio sylwadau amhriodol am Estyn, ei gyflogeion, ei gyflenwyr neu randdeiliaid eraill.
  - Defnyddio cyfryngau cymdeithasol personol yn ystod oriau gwaith sy'n cael effaith negyddol ar eich gallu i wneud eich gwaith yn effeithiol.

- 1.26 Peidiwch â defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel cyfrwng i ddatgan eich achwyniadau neu'ch problemau sy'n gysylltiedig â gwaith, defnyddiwch y cyfryngau priodol bob amser. Pan fydd rhywbeth wedi cael ei ddweud ar-lein, mae'n aros ar-lein a gallai hyn arwain at niwed i'ch enw da chi ac Estyn. Defnyddiwch un neu fwy o'r ffyrdd sydd gan gyflogeion i siarad â rhywun os byddwch yn wynebu unrhyw broblemau.
- 1.27 Cyfrifoldeb pob cyflogai yw sicrhau bod rhyngweithio ar-lein yn aros o fewn y gyfraith, er enghraifft deddfau difenwi, hawlfraint, cydraddoldeb a diogelu data. Byddai enghraifft o dorri deddfau yn cynnwys rhoi cyhoeddusrwydd i wybodaeth gyfrinachol neu ddata personol heb ganiatâd a allai arwain at achos posibl o dorri'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Os ystyrir bod eich camau gweithredu yn drosedd, yna gallent arwain at erlyniad.
- 1.28 Mae'n ofynnol i gyflogeion gydweithredu'n llawn ag ymchwiliadau i unrhyw honiad o dorri amodau'r polisi hwn. Gallai hyn gynnwys darparu gwybodaeth am ddeunydd ar-lein, neu fynediad ato, a dileu cynnwys ar-lein pan ofynnir i chi wneud hynny.

### **Monitro**

- 1.29 Nid yw Estyn yn monitro defnydd personol o gyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd. Fodd bynnag, rydym yn cadw'r hawl i fonitro defnydd cyflogai o gyfryngau cymdeithasol yn y gweithle a'r tu allan lle cawsom wybod am effaith bosibl ar Estyn, ein cyflogeion, ein cyflenwyr neu randdeiliaid eraill.
- 1.30 Bydd defnydd gormodol o gyfryngau cymdeithasol yn y gweithle, p'un a ydych yn defnyddio dyfeisiadau TG gwaith neu rai personol, yn cael ei fonitro fel rhan o bolisi Estyn ar fonitro'r defnydd o'r rhyngwyd.

### **Crynodeb**

- 1.31 Mae cyfryngau cymdeithasol yn ffordd bwysig o gyfathrebu, ac mae miliynau o bobl yn dewis rhyngweithio ar-lein. Wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, byddwch yn gyfrifol, gan barchu pobl eraill a byddwch yn glir ynghylch pwy rydych yn ei gynrychioli.
- 1.32 Pum peth i'w cofio wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a digidol, naill ai yn y gwaith neu mewn rhinwedd bersonol:
- **Synnwyr cyffredin** – mae'r cyfryngau cymdeithasol yn helpu i ni weithio'n agored a chysylltu â'r dinasyddion rydym yn eu gwasanaethu, ond cofiwch ddefnyddio synnwyr cyffredin!
  - **Cadwch at God y Gwasanaeth Sifil** – defnyddiwch yr un safonau ar-lein â'r rhai sy'n ofynnol oddi ar lein, p'un a ydych yn gweithredu yn rhinwedd eich swydd neu mewn rhinwedd bersonol
  - **Amheuron** – os oes gennych amheuaeth, peidiwch â'i bostio

- **Cywirdeb** – gwiriwch gywirdeb a sensitifrwydd yr hyn yr ydych yn ei bostio cyn pwyso cyflwyno
- **Parhaol** – cofiwch ei bod yn anodd iawn dileu rhywbeth wedi i chi ei bostio ar-lein

1.33 Meddyliwch cyn postio. Peidiwch ag anghofio: os na fydddech yn ei wneud oddi ar-lein, peidiwch â'i wneud ar-lein.

### **Beth nesaf?**

- 1.34 Bydd Estyn yn rhoi gwybod i gyflogeion pan fydd yr arweiniad hwn wedi'i ddiweddarau. Fodd bynnag, eich cyfrifoldeb chi yw gwybod a deall y polisi a'r arweiniad, cadw atynt a'u gwirio'n rheolaidd am ddiweddariadau.
- 1.35 I gael rhagor o wybodaeth am yr arweiniad hwn, cyfeiriwch at y Datganiad Polisi ar Gyfryngau Cymdeithasol uchod a'r Cwestiynau Cyffredin yn adran 3 y polisi hwn.
- 1.36 I gael awgrymiadau ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, cyfeiriwch at y **Canllaw ar sut i ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn ddiogel ac yn gyfrifol** yn Adran 4.
- 1.37 Os hoffech gael Geirfa Termau Cyfryngau Cymdeithasol, arweiniad ar ddiogelu gwybodaeth neu ddysgu mwy am ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, yna edrychwch ar wefan Dysgu'r Gwasanaeth Sifil.

## **Astudiaethau achos ar gyfryngau cymdeithasol**

### **Cyflwyniad**

2.1 Gall cyfryngau cymdeithasol gael effaith bwerus a phellgyrhaeddol ar bobl a sefydliadau fel ei gilydd, fel y dengys yr enghreifftiau isod. Gallai'r astudiaethau achos hyn fod yn ddefnyddiol i reolwyr a chyflogeion ddeall effaith bosibl cyfryngau cymdeithasol. Dylai cyflogeion a rheolwyr ymgysylltu â'r Polisi a'r Arweiniad ar Gyfryngau Cymdeithasol, yn ogystal ag unrhyw bolisiau perthnasol eraill.

### **Enghreifftiau cadarnhaol o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol**

2.2 Gall cyfryngau cymdeithasol alluogi sefydliadau i ymgysylltu â, a chyfathrebu â'u cyflogeion a'u cwsmeriaid ar raddfa eang, mewn ffordd fwy uniongyrchol a bod yn fwy tryloyw ac atebol. Mae enghreifftiau isod o adegau pan mae hyn wedi gweithio'n dda.

### **Enghraifft 1**

2.3 Arweiniodd Estyn ymgyrch i leihau baich gwaith athrawon, gan weithio gydag 17 o sefydliadau yn cynnwys Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac undebau addysg. Y cyfryngau cymdeithasol oedd un o'r prif ddulliau a oedd yn anfon

defnyddwyr at wefan yr ymgyrch. Fe wnaeth pob sefydliad helaethu'r negeseuon trwy eu sianeli eu hunain, gan arwain at dros 50,000 o argraffiadau Twitter trwy ddau gyfrif Twitter Estyn. O ganlyniad i'r ymgyrch yn y cyfryngau cymdeithasol, cafodd y poster ei lawrlwytho dros 3,000 o weithiau ac fe wnaeth hefyd ysgogi sgysiau a chefnogaeth gan athrawon.

## **Enghraifft 2**

- 2.4 Defnyddiodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) gyfryngau cymdeithasol trwy gydol Gemau Llundain 2012 i helpu i fonitro sgysiau ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Galluogodd hyn iddynt weld testunau trafod a'r hyn yr oedd angen iddynt ymateb iddo. Galluogodd y monitro hwn i'r Asiantaeth gael gwared yn gyflym ar sïon am achosion o norofeirws yn gysylltiedig â bwyd. Roedd ymgysylltu trwy gyfryngau cymdeithasol yn galluogi cyfathrebu dwy ffordd gyda'r cyhoedd, er mwyn gallu rhannu negeseuon a newyddion allweddol gyda'r gymuned ar-lein yn gyflym.

## **Enghraifft 3**

- 2.5 Defnyddiodd Clwb Pêl-droed Wrecsam gyfryngau cymdeithasol wrth frwydro i achub y clwb pêl-droed rhag mynd i'r wal. Fe wnaethant godi £100,000 mewn 24 awr yn unig, a chyflawnwyd hyn trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth ymhlith eu cefnogwyr. Rhannwyd gwybodaeth rhwng gwahanol safleoedd cyfryngau cymdeithasol a llwyddodd yr effaith caseg eira i sicrhau dyfodol Clwb Pêl-droed Wrecsam.

## **Enghraifft 4**

- 2.6 Mae tîm Llwybr Carlam y Gwasanaeth Sifil wedi creu tudalen Facebook i ryngweithio â darpar ymgeiswyr a rhannu gwybodaeth am y rhaglen Llwybr Carlam. Mae swyddogion presennol y Llwybr Carlam o fewn y Gwasanaeth Sifil yn postio gwybodaeth am eu swydd a'u gyrfa, gan wahodd cwestiynau gan gynulleidfa cyfryngau cymdeithasol. Gwneir hyn mewn amgylchedd agored ac mae'n rhoi mewnwelediad uniongyrchol i waith swyddogion Llwybr Carlam o fewn y Gwasanaeth Sifil.

## **Enghreifftiau sy'n amlygu peryglon posibl wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol**

- 2.7 Mae risgiau posibl yn gysylltiedig â defnyddio cyfryngau cymdeithasol hefyd. Yn sgil poblogrwydd cynyddol cyfryngau cymdeithasol, mae cyflogwyr yn wynebu ystod o broblemau yn ymwneud â'r amgylchedd ar-lein, er enghraifft cyfleoedd ar gyfer bwlio, aflonyddu, gwahaniaethu, gwastraffu amser a defnydd amhriodol o gyfryngau cymdeithasol. Mae'r astudiaethau achos canlynol yn amlygu rhai o'r rhain ac yn darparu enghreifftiau o'r modd y gellir lliniaru risgiau.

## **Enghraifft 1**

- 2.8 Fe wnaeth cyflogai sy'n gweithio mewn rôl gwasanaeth cwsmeriaid bostio sylwadau tramgwyddus ar ei thudalen Facebook am sawl cwsmer a oedd wedi'i cham-drin yn eiriol. Roedd y cyflogai wedi nodi ei man cyflogaeth ac fe gwynodd cwsmer wrth y

cyflogwr. Arweiniodd hyn at gymryd camau disgyblu yn erbyn y cyflogai am ddwyn anfri ar y cyflogwr.

**Negeseuon allweddol:**

- Beth bynnag yw eich gosodiadau preifatrwydd, ni allwch fod yn sicr y bydd unrhyw beth rydych yn ei bostio ar-lein yn aros yn breifat.
- Os ydych wedi nodi'ch cyflogwr ac mae natur eich sylwadau yn dwyn anfri arno, gellid eich disgyblu a'ch diswyddo hyd yn oed.

**Enghraifft 2**

- 2.9 Postiodd cyflogai sylwadau amhriodol am gydweithiwr ar Facebook. Roedd gan y cyflogai hwn osodiadau preifatrwydd i gyfyngu ei gynnwys i 'ffrindiau' yn unig. Fe wnaeth 'ffrind' Facebook basio'r sylwadau ymlaen a daethpwyd â nhw i sylw rheolwr y cyflogai. Ystyriwyd bod y sylwadau yn aflonyddu a'u bod yn cynnwys camymddwyn difrifol. Arweiniodd hyn at ddiswyddo'r cyflogai.

**Negeseuon allweddol:**

- Nid yw eich gosodiadau preifatrwydd yn sicrhau y bydd unrhyw beth rydych yn ei bostio ar-lein yn aros yn breifat.
- Caiff bwlio ac aflonyddu eu trin fel difrifol yn yr un modd ag y byddai oddi ar-lein. Gan nad yw unigolion efallai'n gwybod eu bod yn destun bwlio a/neu aflonyddu seiber os nad ydynt yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, dylai rheolwyr drin unrhyw wybodaeth sy'n cael ei rhoi iddynt gyda'r pwysigrwydd mwyaf a gweithredu yn unol â'r wybodaeth ar unwaith ac yn briodol.

**Enghraifft 3**

- 2.10 Roedd cyflogai wedi cael ei siomi gan ei gyflogwr a phostiodd sylwadau negyddol am ei gyflogwr ar ei dudalen Facebook. Fe wnaeth un o 'ffrindiau' Facebook y cyflogai dynnu sylw'r cyflogwr at y sylwadau hyn ac fe gafodd y cyflogai ei ddiswyddo o ganlyniad. Dadleuodd y cyflogai nad oedd wedi nodi i bwy yr oedd wedi gweithio a bod ei dudalen Facebook yn breifat. Ategwyd bod y diswyddo yn deg, gan fod y cyflogai wedi cael llawlyfr yn datgan yn glir sut y dylai ymddwyn yn gyhoeddus ac ar-lein.

**Negeseuon allweddol:**

- Ni ddylech ddisgwyl bod gwybodaeth rydych yn ei phostio ar Facebook yn breifat, oherwydd gall sylwadau gael eu hanfon at bobl eraill yn hawdd ac ni allwch reoli sut neu ble y gallent gael eu pasio ymlaen.
- Ymdrinnir â gweithgareddau y tu allan i waith sy'n effeithio ar les ac enw da Estyn ym mholisiâu a chanllawiau Estyn, a gallai canlyniadau difrifol godi yn sgil torri'r rhain. Gall y canlyniadau hyn gynnwys camau disgyblu a/neu ddiswyddo. Os ystyrir bod eich camau gweithredu yn drosedd, gallai arwain at erlyniad hefyd.

- 2.11 Mae'r enghreifftiau go iawn hyn at ddibenion egluro yn unig, gan y dylid barnu pob achos ar sail ei rhinweddau ei hun a gallai canlyniadau fod yn wahanol mewn achosion yn y dyfodol.
- 2.12 Gobeithio bod yr enghreifftiau hyn wedi bod yn ddefnyddiol wrth ddangos yr effeithiau cadarnhaol y gall cyfryngau cymdeithasol eu cynnig i unigolion a chymunedau, y tu mewn i'r gweithle a'r tu allan, o'u defnyddio'n ddiogel ac yn gyfrifol, yn ogystal â goblygiadau posibl yn sgil eu camddefnyddio.

## **Cwestiynau cyffredin am gyfryngau cymdeithasol**

### **Beth yw manteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn fy mywyd personol?**

- 3.1 Mae cyfryngau cymdeithasol yn ffordd gymharol rad, gyflym a hawdd o rannu gwybodaeth a phrofiadau gyda ffrindiau, teuluoedd a chymunedau ar-lein. Mae hefyd yn ffordd wych o gael y newyddion lleol a chenedlaethol diweddaraf, newyddion am bobl enwog neu adeiladu rhwydweithiau gyda phobl o'r un feddylfryd.

### **I bwy y mae'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol yn berthnasol?**

- 3.2 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl gyflogeion Estyn p'un a yw hynny yn ystod oriau gwaith neu yn eu hamser personol, gan ddefnyddio dyfeisiadau TG gwaith neu rai personol. Mae hyn yn cynnwys cyflogeion parhaol a chyflogeion dros dro, gweithwyr ar brawf, gweithwyr asiantaeth a phawb arall, fel secondeion a staff sydd ar fenthyg o adrannau eraill y llywodraeth a allai fod yn cynrychioli Estyn ar adegau amrywiol.

### **Os nad ydw i'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol, sut mae'r polisi yn berthnasol i mi?**

- 3.3 Hyd yn oed os nad ydych yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol y tu allan i'r gwaith, gall cydweithwyr, ffrindiau a theulu rannu gwybodaeth a/neu luniau ohonoch chi. Dylech drafod eich dewisiadau gyda chydweithwyr, ffrindiau a theulu oherwydd efallai na fyddwch chi am iddynt rannu gwybodaeth amdanoch chi. Mewn perthynas â'ch gwaith, dylech wybod am y polisi hwn a'i ddeall gan ei fod yn cefnogi'r strategaethau digidol a amlinellir yng Nghynllun Diwygio'r Gwasanaeth Sifil sydd â'r nod o ddatblygu gallu digidol ymhellach ar draws y Gwasanaeth Sifil.

### **Pam y byddai sefydliad eisiau defnyddio cyfryngau cymdeithasol?**

- 3.4 Mae cyfryngau cymdeithasol yn galluogi sefydliadau i ymgysylltu â, a chysylltu â'u cwsmeriaid a'u cyflogeion mewn ffordd fwy tryloyw ac atebol. Hefyd, mae'n ffordd gymharol rad a chyflym o gyfathrebu ar raddfa fawr. Mae Polisi Diwygio'r Gwasanaeth Sifil yn amlinellu agenda ddigidol lle gallwn wneud defnydd go iawn o fanteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar draws gwasanaethau ac adrannau'r llywodraeth.

### **Beth ddylwn i wneud os ydw i'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar ran Estyn?**

- 3.5 Os yw Estyn wedi rhoi awdurdod i chi ei gynrychioli ar-lein, yna dylech ddilyn yr egwyddorion a amlygwyd yn y Polisi, yr Arweiniad a'r cynnyrch Cyfryngau Cymdeithasol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn: byddwch yn glir ynghylch pwy rydych yn ei gynrychioli; byddwch yn gyfrifol am eich gweithredoedd; a dangoswch barch at bobl eraill. Rydych chi'n cynrychioli Estyn mewn lle cyhoeddus sydd ar gael i filiynau o bobl, felly dylech ystyried eich gweithredoedd fel pe baech yn ysgrifennu datganiad swyddogol i'r wasg, er enghraifft. I gael rhagor o arweiniad ar ddefnydd awdurdodedig, trowch at y ddogfen ar y cyd gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth a'r Swyddfa Gartref, [arweiniad ar y cyfryngau cymdeithasol i weision sifil](#).

### **Beth yw perthnasedd Cod y Gwasanaeth Sifil i'm defnydd o gyfryngau cymdeithasol?**

- 3.6 Mae Cod y Gwasanaeth Sifil yn amlinellu gwerthoedd craidd y Gwasanaeth Sifil a'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan yr holl weision sifil. Mae'r gwerthoedd craidd hyn: uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd ac amhleidioldeb yn berthnasol i'ch rhyngweithio ar-lein ac oddi ar lein.

### **Beth yw'r pethau allweddol i'w cofio wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol?**

- 3.7 Y peth pwysicaf yw defnyddio'r un ystyriaeth ar gyfer eich ymddygiad ar-lein, fel yr ydych yn gwneud oddi ar lein. Byddwch yn gyfrifol wrth rhyngweithio ar-lein, dangoswch barch tuag at bobl eraill a byddwch yn glir ynghylch pwy rydych yn ei gynrychioli. Gallai ymddwyn yn amhriodol ar-lein arwain at ddisgyblu o bosibl, felly meddyliwch cyn postio.

### **Beth yw ystyr 'bod yn gyfrifol'?**

- 3.8 Dylech ddefnyddio'r un rheolau rhyngweithio gyda phobl ar-lein ag y byddech oddi ar lein. Mae cyfryngau cymdeithasol yn lle cyhoeddus. Cyn i chi bostio, gofynnwch i chi'ch hun a fyddech yn hapus yn rhoi'r wybodaeth i newyddiadurwr. Hefyd, cofiwch eich bod yn atebol am eich gweithredoedd eich hun; mae hyn yn cynnwys dewis rhannu cyfraniadau a wnaed gan bobl eraill.

### **Sut gallaf i ddangos parch wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol?**

- 3.9 Parchwch breifatrwydd pobl eraill a dangoswch ystyriaeth am farn a safbwyntiau gwahanol bobl. Os na fyddech yn barod i ddweud rhywbeth wrth rywun yn bersonol neu mewn neges e-bost ato, yna peidiwch â'i bostio ar-lein.

### **Beth gallaf i wneud i ddangos mai fy safbwyntiau yw fy rhai i ac nad ydynt yn cynrychioli fy nghyflogwr?**

- 3.10 Gallech gynnwys ymwrthodiad. Fodd bynnag, cofiwch y gallai pobl eich cysylltu ag Estyn o hyd os byddwch yn sôn am eich gweithle pan fyddwch yn rhyngweithio, neu os byddwch yn rhyngweithio â phobl rydych wedi cyfarfod â nhw yn sgil eich cyflogaeth.



### **Beth am fy hawl i breifatrwydd?**

- 3.11 O dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn), mae gan bawb yr hawl i barch o ran eu bywyd preifat. Mae'r polisi hwn yn parchu'r hawl i breifatrwydd a bydd yn ceisio ategu hynny trwy annog pobl eraill i werthfawrogi'ch hawliau preifatrwydd ar-lein. Cofiwch fod union natur y cyfryngau cymdeithasol yn gyhoeddus, felly gellir dosbarthu post ar-lein trwy gyfryngau cymdeithasol yn gyhoeddus hefyd.

Os ydych chi am i rywbeth aros yn breifat, yna peidiwch â'i bostio ar-lein.

### **Beth am fy hawl i ryddid mynegiant?**

- 3.12 Mae'r Confensiwn yn datgan hefyd fod gan bawb yr hawl i ryddid mynegiant. Fodd bynnag, daw cyfrifoldebau law yn llaw â hawliau, ac ni ddylech bostio'ch safbwyntiau ar-lein os ydynt yn niweidio enw da a hawliau pobl a sefydliadau eraill.

### **Rwy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn fy amser fy hun ac ar gyfer defnydd personol, felly pam gall fy nghyflogwr fy nisgyblu am ddefnydd amhriodol?**

- 3.13 Yn gyffredinol, nid yw'n fusnes i'ch cyflogwr sut rydych yn gwneud defnydd personol o gyfryngau cymdeithasol y tu allan i oriau gwaith, ar yr amod nad oes ganddo'r potensial i gael effaith niweidiol ar Estyn, ein cyflogeion, ein cyflenwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae union natur cyfryngau cymdeithasol yn golygu bod unrhyw wybodaeth rydych yn ei phostio ar gael yn gyhoeddus, ac mae gan eich cyflogwr yr hawl i ymchwilio i unrhyw beth sy'n cael effaith negyddol arnynt.

### **Beth ddylwn i ei wneud os byddaf yn gweld post amhriodol gan gydweithiwr neu was sifil arall?**

- 3.14 Os byddwch yn gweld cydweithiwr neu was sifil arall yn gweithredu'n amhriodol ar-lein, dylech roi gwybod i'ch rheolwr llinell. Efallai y dylech argraffu neu gymryd saethiad sgrin o'r deunydd tramgwyddus i'w roi i'ch rheolwr llinell. Ceisiwch beidio ag ymwneud â'r achos yn uniongyrchol. Ni ddylech ychwanegu sylwadau at y post na mynd at yr unigolyn oherwydd efallai nad eich lle chi yw safoni ei (h)ymddygiad. Yn hytrach, rhowch y wybodaeth i'ch rheolwr gan alluogi iddo/iddi ddelio â'r achos yn briodol.

### **Fel rheolwr, beth ddylwn i ei wneud os byddaf yn cael gwybod am achos lle gallai cyfryngau cymdeithasol fod wedi cael eu defnyddio yn amhriodol?**

- 3.15 Dylid trin pob achos yn unigol gan fod nifer o bwyntiau y dylid eu hystyried cyn i chi weithredu. Byddwch yn ymwybodol o ymatebion byrbwyll ac ystyriwch y canlynol cyn penderfynu ar y ffordd orau o ymateb:
- Gwnewch yn siŵr fod gennych ddealltwriaeth lawn o'r math o gyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir (ar gyfer enghreifftiau o'r gwahanol fathau o gyfryngau cymdeithasol, cyfeiriwch at yr Arweiniad ar Gyfryngau Cymdeithasol).
  - Os oes modd, ceisiwch gael saethiad sgrin neu argraffiad o'r post.

- Pwy yw'r gynulleidfa/gynulleidfa bosibl?
- Beth yw'r perygl i Estyn?
- A yw'n effeithio ar gyflogai arall? Er enghraifft, pe bai rhywun yn teimlo'i fod yn cael ei fwlio ar-lein.
- A oes angen i chi gynnwys unrhyw un arall? Er enghraifft, a oes angen i chi ddweud wrth dîm Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, tîm AD, Swyddog Diogeled Technoleg Gwybodaeth Estyn neu wrth aelod o'r uwch reolwyr?
- A oes angen cynnal ymchwiliad manwl?
- Ystyriwch a fyddai'n briodol gofyn i'r unigolyn ddileu'r post; efallai yr hoffech nodi ei ymateb.
- Beth yw'r opsiynau disgyblu (os oes rhai) ac a ydynt yn gymesur ag effeithiau/effeithiau posibl y post?

### **Beth os ydw i wedi gwneud camgymeriad ar-lein?**

- 3.16 Dylech ddileu'r post ond cofiwch y gallai pobl eraill fod wedi anfon y wybodaeth ymlaen neu'i chopïo. Byddwch yn onest am eich camgymeriad a cheisiwch ei gywiro lle bo modd. Os yw'r wybodaeth yn ymwneud ag Estyn, ein cyflogeion, ein cyflenwyr neu randdeiliaid eraill, yna dywedwch wrth eich rheolwr cyn gynted ag y bo modd.

### **Beth yw'r canlyniadau am ymddwyn yn amhriodol ar-lein?**

- 3.17 Dylai'r datganiad Polisi ar Gyfryngau Cymdeithasol, a'r arweiniad a'r cynnyrch, roi'r hyder i chi ryngweithio'n briodol ar-lein. Fodd bynnag, gallai fod canlyniadau difrifol am ymddwyn yn amhriodol ar-lein a/neu gamddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Gall y canlyniadau hyn gynnwys camau disgyblu gan arwain at ddiswyddo o bosibl. Os ystyrir bod eich gweithredoedd yn drosedd, gallai arwain at erlyniad hefyd.

### **Beth ddylwn i ei wneud os ydw i'n meddwl fy mod yn cael fy mwlio neu fy mhoenydio ar-lein?**

- 3.18 Efallai eich bod yn teimlo y gallwch siarad â'r unigolyn a gofyn iddo/iddi roi'r gorau iddi; gallai hyn ddatrys y sefyllfa oherwydd efallai nad ydynt yn sylweddoli eu bod yn ymddwyn mewn modd tramgwyddus. Os nad yw hyn yn datrys y sefyllfa (neu os nad ydych yn credu y gallwch wneud hyn), yna cyfeiriwch at y polisi ar fwlio ac aflonyddu. Gall eich rheolwr helpu i chi fynd i'r afael â'r broblem hefyd. Pan fo modd, gwnewch gofnod o'r postau tramgwyddus. Er enghraifft, gallech arbed neu argraffu copi i'w ddefnyddio fel tystiolaeth.

### **A oes unrhyw bolisiau cysylltiedig eraill y dylwn fod yn ymwybodol ohonynt?**

- 3.19 Mae llawer o bolisiau sy'n cysylltu â defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Nid yw'r Polisi ar Gyfryngau Cymdeithasol yn ceisio disodli polisiau eraill. Mae'n eu hatgyfnerthu o fan defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Dylech ddilyn yr holl bolisiau perthnasol eraill a'u cymhwyso i'ch ymddygiad ar-lein.

### **Beth yw perthnasedd y datganiad #meddyliwchcynpostio?**

- 3.20 Caiff y symbol #, sy'n cael ei alw'n hashnod, ei ddefnyddio'n aml mewn cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft yn Twitter, i amlygu geiriau neu destunau allweddol. Pan

fydd mwy nag un unigolyn yn amlygu'r un geiriau, gan ddefnyddio #, dechreuir tuedd, gan godi proffil y geiriau. Mae datganiad #meddylwchcynpostio yn pwysleisio'r neges allweddol ynghylch defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol ac yn ddiogel.

### **Beth os bydd trydydd parti yn priodoli sylw i mi ar gyfryngau cymdeithasol?**

- 3.21 Mae'n bosibl, yn dilyn sgwrs neu ohebiaeth â thrydydd parti, y gallai'r unigolyn bostio sylw ar gyfryngau cymdeithasol yn priodoli datganiadau neu farnau penodol i chi na fydddech chi wedi eu postio eich hun. Gallent eich camddyfynnu neu briodoli datganiadau i chi heb i chi fod yn ymwybodol bod hyn wedi digwydd. Mae'n bwysig cofio'r rheol ganlynol: Pan fyddwch yn siarad *am* waith, rydych chi *yn* y gwaith. O'r herwydd, dylech bob amser fod yn ofalus beth rydych yn ei drafod a gyda phwy a chofiwch fod llawer iawn o waith Estyn yn gyfrinachol o ran ei natur, ac o'r herwydd, ni ddylech drafod hyn gydag unrhyw un y tu allan i Estyn.
- 3.22 Os bydd hyn yn digwydd, dylech ofyn i'r unigolyn a wnaeth y datganiad p'un a fyddai'n fodlon ei ddileu, ond ni ddylech roi pwysau arno/arni i wneud hyn oherwydd gallai hyn waethgu'r sefyllfa. Mae'n bwysig i chi beidio â bod yn rhan o unrhyw fath o ddadl gyda'r unigolyn dan sylw, naill ai ar-lein nac yn breifat, a dylech wrthod gwneud datganiadau i unrhyw un am yr hyn sydd wedi'i bostio pe bai rhywun yn gofyn i chi wneud hynny. Os yw'r sylw yn cynnwys cysylltiadau â'ch gwaith, yna dylech roi gwybod i'ch rheolwr llinell ac esbonio'r hyn sydd wedi digwydd.

## **Canllaw ar sut i ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn ddiogel ac yn gyfrifol**

### **Cyflwyniad**

- 4.1 Bydd y canllaw hwn yn helpu pob cyflogai i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd gyfrifol a diogel. Mae'n berthnasol i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod oriau gwaith neu yn ystod amser personol, gan ddefnyddio dyfeisiadau TG gwaith neu rai personol. Mae'r canllaw hwn wedi'i fwriadu ar gyfer cyflogeion nad ydynt efallai'n gyfarwydd â chyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â defnyddwyr profiadol.
- 4.2 Wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a chyfrannu atynt, rydych chi'n wynebu penderfyniad uniongyrchol ynghylch gweithredu mewn modd cyfrifol a diogel. Mae angen i chi feddwl yn ofalus cyn postio unrhyw sylwadau neu farn a sicrhau nad yw eich defnydd yn gwrthdaro â gwerthoedd y Gwasanaeth Sifil, sef gonestrwydd, uniondeb, gwrthrychedd ac amhleidioldeb. Trwy gadw'r gwerthoedd hyn mewn cof wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, byddwch yn diogelu enw da Estyn a'ch enw da eich hun.

### **Beth yw cyfryngau cymdeithasol?**

- 4.3 Mae cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys llwyfannau TG ar-lein lle gallwch gynhyrchu, cyfrannu a rhannu cynnwys fel testun, lluniau a fideos. Mae cyfryngau cymdeithasol yn ffordd wych o ymgysylltu â, a chyfathrebu â theulu a ffrindiau, yn

ogystal â rhannu gwybodaeth a phrofiadau gydag amrywiaeth o gymunedau ar-lein. I sefydliadau, mae'n ffordd eithriadol o effeithiol o ymgysylltu â chwsmeriaid a chyflogeion.

- 4.4 Mae llawer o fathau o gyfryngau cymdeithasol y gallech fod yn gyfarwydd â nhw, neu efallai ddim. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i, rwydweithiau cymdeithasol fel Facebook, LinkedIn a Twitter. Mae mwy a mwy o fusnesau, sefydliadau ac unigolion yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Er enghraifft, mae 10 Stryd Downing yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i rannu storïau newydd a datganiadau i'r wasg gyda'r cyhoedd.
- 4.5 Os hoffech gael gwybod mwy am ba fathau o safleoedd cyfryngau cymdeithasol sydd ar gael a beth allai weithio i chi, edrychwch ar-lein. Mae cyfryngau cymdeithasol yn symud yn gyflym ac yn newid yn barhaus, felly mae'n werth dilyn hynt a helynt datblygiadau newydd.

### **Defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol**

- 4.6 Mae postio sylwadau, lluniau neu fideos ar gyfryngau cymdeithasol yn wahanol iawn i gael sgwrsiau preifat gyda chydweithwyr/teulu/ffrindiau. Mae union natur cyfryngau cymdeithasol yn golygu bod gwybodaeth yn gyhoeddus pan fyddwch wedi'i phostio ar-lein, a gallai gyrraedd cynulleidfa eang iawn ac aros yno am byth.
- 4.7 Dylech osgoi rhoi sylwadau ar faterion gwleidyddol dadleuol ac osgoi ymosod yn bersonol ar unigolion neu grwpiau neu wneud sylwadau di-chwaeth neu dramgwyddus amdanynt. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol y gallai postio unrhyw gynnwys sy'n cael ei ystyried yn amhriodol, p'un ai yn rhinwedd eich swydd neu mewn rhinwedd bersonol, arwain at gamau disgyblu a allai arwain at eich diswyddo.
- 4.8 Mae awgrymiadau a chyngor isod ar gyfer defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol. Trwy ddilyn y rhain, byddwch yn helpu i ddiogelu'ch hun yn erbyn peryglon posibl.
- **Meddyliwch bob tro cyn postio!** Gall cyfryngau cymdeithasol fod ar gael i chi ar unwaith trwy ddyfeisiadau symudol, sy'n ei gwneud yn hawdd i chi bostio ar unwaith, gan gyfyngu'ch amser i fyfyrion ac ystyried y canlyniadau. Ystyriwch sut rydych yn teimlo hefyd, efallai nad yw'n syniad da postio pan fyddwch yn flin neu'n emosiynol. A allai eich barn gael ei heffeithio dros dro? Er enghraifft, os ydych chi dan ddylanwad alcohol.
  - **Dylech ddeall y llinell rhwng yr hyn sy'n briodol a'r hyn nad yw'n briodol.** Prawf da i'ch helpu chi gyda hyn yw trwy ystyried a fydddech yn hapus i'ch rheolwr/cydweithwyr/teulu/cyflogwr yn y dyfodol weld eich post. A fydddech chi'n teimlo'n gyfforddus pe bai newyddiadurwr yn dyfynnu'ch post neu'n defnyddio llun y gwnaethoch ei bostio yn y wasg neu ar safle cyfryngau cymdeithasol arall? Os na yw'r ateb, peidiwch â phostio.
  - **Dylech wybod rheolau Estyn ar gyfryngau cymdeithasol.** Dylech ymglyfarwyddo â'r Polisi a'r Arweiniad ar Gyfryngau Cymdeithasol ac unrhyw bolisiâu presennol sy'n berthnasol i Estyn, er enghraifft diogeledd ac ymddygiad.

Cofiwch, hyd yn oed pan fyddwch yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol y tu allan i'r gwaith, dylech bob amser gadw at God y Gwasanaeth Sifil.

- **Dylech ddeall y gyfraith.** Efallai nad ydych yn meddwl am y gyfraith wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, ond does ond angen i chi ddarllen y newyddion i wybod bod pobl sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol o bryd i'w gilydd yn eu cael eu hunain i helynt y gellir ei osgoi. Dyma yw'r pethau allweddol i'w cofio:
  - Peidiwch â datgelu gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol am bobl eraill, eich gwaith neu'ch gweithle gan y gallai hyn dorri'r Ddeddf Diogelu Data (DDD) neu ddeddfwriaeth arall.
  - Peidiwch â difrio unigolion neu sefydliadau (postio anwiredd).
  - Peidiwch â bwlio, aflonyddu na gwahaniaethu.
  - Peidiwch â thorri deddfau hawlfraint.

### **Defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ddiogel**

- 4.9 Mae aros yn ddiogel ar-lein yn ystyriaeth bwysig iawn wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Bydd yr awgrymiadau a'r cyngor isod yn helpu i chi aros yn ddiogel wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

**Dysgwch reolau** pob safle cyfryngau cymdeithasol cyn ei ddefnyddio. Cofiwch fod safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn aml yn diweddarau eu canllawiau, a'ch cyfrifoldeb chi yw cael y wybodaeth ddiweddaraf am hyn.

**Defnyddiwch gyfrineiriau cryf** i ddiogelu'ch cyfrifon cyfryngau cymdeithasol rhag i rywun hacio i mewn iddynt, ac ystyriwch eu newid yn rheolaidd.

**Gwiriwch eich gosodiadau preifatrwydd.** Bydd defnyddio'r gosodiadau preifatrwydd cryfaf yn helpu i chi gadw'ch gwybodaeth yn fwy diogel. Dylech wirio'r gosodiadau hyn yn rheolaidd.

**Cadwch eich gwybodaeth bersonol yn breifat.** Er enghraifft, peidiwch â datgelu'ch dyddiad geni/lleoliad/manylion cyswllt a allai eich gwneud yn agored i gael niwed gan bobl eraill, gan gynnwys troseddwyd.

**Byddwch yn wylidwrus o bostau sy'n cynnig rhywbeth sy'n rhy dda i fod yn wir.** Dylech ymddiried yn eich greddf os yw rhywbeth yn ymddangos yn amheus. Os gwyddoch fod rhywbeth yn dwyllodrus, rhowch wybod i'r safle cyfryngau cymdeithasol amdano. Byddwch yn wylidwrus o negeseuon sgâm sydd wedi'u cynllunio i'ch twyllo i ddatgelu gwybodaeth a fydd yn arwain at eich twyllo neu ddwyn eich hunaniaeth.

**Gwnewch yn siŵr fod gennych feddalwedd diogeled gyfoes a da** ar bob dyfais rydych yn ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngwyd i'ch helpu i aros yn ddiogel ar-lein.

## Rhagor o ffynonellau gwybodaeth

- 4.10 Mae llawer o wybodaeth ar gael ar y rhyngwrwd am gyfryngau cymdeithasol. Isod, mae dolenni cyswllt i nifer o wefannau a allai fod yn ddefnyddiol i chi ac a fydd yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am gyfryngau cymdeithasol a defnyddio'r rhyngwrwd yn ddiogel.

**Get Safe Online** - <https://www.getsafeonline.org/>

Gwybodaeth ddiuedd, ffeithiol a hawdd ei deall ynghylch cyfryngau cymdeithasol.

**Digital Unite** - <http://digitalunite.com/>

Cyfleoedd a chymorth dysgu wrth ddefnyddio technoleg ar-lein (gan gynnwys Facebook, Twitter a blogiau).

**Dysgu'r Gwasanaeth Sifil** - <https://civilservicelearning.civilservice.gov.uk/>

Technoleg a deunyddiau dysgu cyfryngau cymdeithasol ar-lein

**Arweiniad ar y cyfryngau cymdeithasol** -

<https://www.gov.uk/government/publications/social-media-guidance-for-civil-servants/social-media-guidance-for-civil-servants>

Arweiniad Swyddfa'r Cabinet i'r holl weision sifil ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Ei fwriad yw helpu gweision sifil i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i wella eu gwaith tra'n cynnal y lefelau uchaf o uniondeb.